# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-08-06(p6)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 17 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Blaenraglen waith y Pwyllgor

#### Diben

1. Cytuno ar flaenraglen waith y Pwyllgor ar gyfer y 12 mis nesaf.

#### Rhaglen Waith Strategol

2. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnod o 12 mis o leiaf, ac adrodd i'r Cyfarfod Llawn o dro i dro ar y cynnydd a wnaed.

3. Mae'r rhaglen waith strategol ddrafft yn Atodiad 1 yn awgrymu ffyrdd o weithio sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau datblygu polisi a chraffu'r Pwyllgor.

4. Cytunir ar y rhaglen ddrafft fanwl ar gyfer tymor yr hydref cyn diwedd tymor yr haf. Bydd yn seiliedig ar flaenoriaethau a materion polisi allweddol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwrw ymlaen â hwy ar hyn o bryd, a materion eraill a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor hwn.

#### Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar y rhaglen strategol ddrafft yn Atodiad 1, ac i gytuno arni.

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor

#### Atodiad 1

#### Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

#### Blaenraglen Waith Strategol

## Mai 2006 – Ebrill 2007

## Rhagair

1. Mae'r rhaglen waith hon yn nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor dros y deuddeg mis nesaf.

## Cylch gwaith a chyfrifoldebau

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cynnwys llywodraeth leol, datblygu ymagwedd strategol at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a Chynllun Gofodol Cymru. Nid yw'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas ag arian y Cynulliad neu faterion polisi neu ariannol sy'n perthyn i bortffolio arall.

3. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9, sef, yn bennaf: datblygu polisi; craffu ar waith Gweinidogion a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

## Nodau

4. Bydd y Pwyllgor yn datblygu ymagwedd strategol at ei waith ac yn ceisio cydbwyso ystyriaeth o bynciau ar draws y portffolio â'i amrywiol gyfrifoldebau.

## Blaenoriaethau

5. Dyma fydd y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7(i)) - bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Bydd yn parhau â'i brosiect ar drefniadau etholiadol yng Nghymru y cytunwyd eisoes ar ei gylch gorchwyl. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ddilyn hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion o'i adroddiadau ar ei ymchwiliadau, sef Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd mewn Llywodraeth Leol a Rheoli ac Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i brosiect craffu ar y Trefniadau Etholiadol yng Nghymru a bydd yn cyhoeddi'i adroddiad terfynol yn yr hydref 2006. Hefyd bydd y Pwyllgor yn ceisio helpu i ddiwygio agenda'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn sgil y cynigion a wnaed yn Creu'r Cysylltiadau.

- Craffu ar waith y Gweinidog (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) - bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor bob yn ail gyfarfod ar ddatblygiadau cyfredol oddi mewn i'r portffolio. Efallai y bydd y Pwyllgor yn ymgymryd hefyd ag ymchwiliadau i destunau penodol yn fwy manwl.
- Craffu ar gyrff perthnasol (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) - bydd y Pwyllgor yn ystyried gwaith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr Uned Cydraddoldebau Llywodraeth Leol ac Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru.
- Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (Rheol Sefydlog 9.8(i) a 24) - bob yn

ail gyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cael amserlen o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig o fewn ei gylch gwaith. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar ddeddfwriaeth y gall ddylanwadu ar ei chynnwys. Bydd hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd fel y bo'n addas. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig sy'n berthnasol iddo.

## Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

- cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau cyllidebol yn nhymor yr haf ac yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref;
- cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii) a 23) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeirir ato dan Reol Sefydlog 23;
- penodiadau cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8(iv) a 22) - bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;
- materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion eraill y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond fe hoffai ofyn i Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

## Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod dyletswyddau penodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd y canlynol yn llywio gwaith y Pwyllgor:

Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120) - bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac weithiau y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i bobl ledled Cymru gael gwell mynediad at ei waith. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i gyfle cyfartal ym mhob un o'r materion sydd yn ei bortffolio;

Datblygu Cynaliadwy (adran 121) - gydol ei drafodaethau bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gydbwyso twf economaidd a chymdeithasol â chadwraeth yr amgylchedd, hyn oll trwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd yr argymhellion yn ei adolygiadau polisi yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Mai 2006